Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

16 Hydref 2023

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGU AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI: 'AN INSPECTION OF HOW EFFECTIVE POLICE FORCES ARE IN THE DEPLOYMENT OF FIREARMS.'

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o arolygiadau thematig o heddluoedd. Roedd yr adroddiad hwn gan yr Arolygiaeth yn edrych ar ba mor effeithiol y mae'r heddluoedd yn defnyddio arfau tanio, gan gynnwys arfau arbenigol. Canfu'r arolygiad sawl tîm proffesiynol sy'n ymroddedig i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

Pan fydd gan yr heddlu y pŵer a'r awdurdod i gario arfau a'u tanio, mae'r lefel uchaf o oruchwyliaeth yn hanfodol. Dyma'r risg sy'n gysylltiedig â phlismona arfog, ac mae angen cyfeirio at yr argymhellion a wnaed gan yr Arolygiaeth ar fyrder. Nodwyd yr argymhellion hyn gennyf a byddaf yn uno unrhyw feysydd sy'n peri pryder â'n dulliau craffu a goruchwylio yn Heddlu De Cymru.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn awyddus i sicrhau'r safonau uchaf o oruchwyliaeth ac mae prosesau ar waith o fewn y maes Arfau Tanio. Mae Prif Gwnstabl Cynorthwyol Travis yn crynhoi ei farn am yr adroddiad fel a ganlyn:

'Mae Heddlu De Cymru yn un o dri heddlu Cymru sy'n cydweithio fel yr Uned Arfau Tanio ar y Cyd, gan gydnabod y canfyddiadau a'r argymhellion ar gyfer yr adroddiad ac mae'n gwbl ymrwymedig i wella effeithiolrwydd y defnydd o swyddogion arfau tanio awdurdodedig.

Mae'r heddlu yn gweithredu rota 24 awr sy'n cynnwys gallu ac adnoddau Comander Arfau Tanio Arbenigol ac yn ddiweddar, symudodd i Fodel dau Reolwr Digwyddiadau'r Heddlu ar ddyletswydd, gyda'r ddau ohonynt yn gweithio tuag at gael achrediad I-TFC. Mae'r heddlu wedi cydnabod y 12 o argymhellion a gallaf gadarnhau y cafodd y mwyafrif ohonynt eu cyflawni cyn yr adroddiad hwn, gyda gweddill yr argymhellion wrthi'n cael eu cyflawni o fewn y terfynau amser gofynnol.

Bydd Heddlu De Cymru yn parhau i wella ein gallu a'n hadnoddau fel rhan o'r Uned Arfau Tanio ar y Cyd er mwyn diogelu'r cyhoedd, a dwyn y troseddwyr hynny sy'n peri risg difrifol i eraill o flaen eu gwell.'

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
g:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol am ei sylwadau a'i ymrwymiad i ddiogelu'r cyhoedd. Byddaf yn sicrhau bod fy Mwrdd Craffu ac Atebolrwydd yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i ystyried goruchwyliaeth bellach ar y mater hwn.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English